

**COFNODION O GYFARFOD PWYLLGOR AMCANION CYFFREDINOL A CHYNLLUNIO  
CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD O BELLTER (TRWY ZOOM), NOS  
FAWRTH, 6<sup>ED</sup> GORFFENNAF 2021 AM 6.30 P.M.**

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G. Campbell (Cadeirydd)  
Cynghorwyr C. Brockley, Mrs M. Jones (Maer), R. Owen, T.  
Pearson (Dirprwy Faer), S. Price, S. Ryder, M. Tasker, M. Worth..

**SWYDDOGION:** Mrs Tina Earley, Clerc y Dref  
Mrs Roz Dudley, Clerc Cynorthwyol.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Cynghorydd Paul Richards

**52/21 Croeso ag Ymddiheuriadau am Absenoldeb:**

Croesawyd y Cynghorwyr a'r ymwelwyr i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.  
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gynghorwyr Mrs  
Glenys Baker, C. Matthews a J. Pearson. .

**53/21 Datgan Cysylltiadau:**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiadau personol  
a / neu rai all ragfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

**54/21 Cofnodion:**

*Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a  
gynhaliwyd ar 25<sup>ain</sup> Mai 2021 yn adroddiad cywir.*

**55/21 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC):**

- a) **Rheoliad Traffig Dros Dro:** Fe nodwyd gan yr Aelodau, y rheoliad traffig  
dros dro ar gyfer Old Highway. Bae Colwyn ar 15/6/21 (Gwaith BT).
- b) **Rheoliad Traffig Dros Dro:** Fe nodwyd gan yr Aelodau, y rheoliad traffig  
dros dro ar gyfer y Bont, Old Highway, Bae Colwyn o 23/6 – 25/6/21  
(Gwaith ar y Bont).
- c) **Cynllun Chwarae Allan 2021:** Fe nodwyd gan yr Aelodau, yr eglurhad am y  
cais am gyllid ynghyd ag amserlen y digwyddiadau a nodyn atgoffa am  
leoliadau'r cynllun.
- ch) **Caban Ffôn Talu BT:** Croesawyd y Cynghorydd B. Cossey a Mr D. Harding  
Smith i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Fel Cadeirydd Bwrdd Prosiect y Pier  
CBSC, dywedodd y Cynghorydd Cossey wrth yr Aelodau mai'r rheswm am  
iddynt ofyn i gael rhoi cyflwyniad i'r cyfarfod oedd gofyn i'r Cyngor i  
amnewid / tynnu'n ôl y cais i gael cadw ffôn talu BT ar y Promenâd, ger y  
Pier (gofynnwyd amdano am resymau diogelwch oherwydd ei leoliad yn  
agos at y traeth). Dywedodd y Cynghorydd Cossey bod y gwaith adeiladu  
ar y Pier newydd bron a'i gwblhau ac roedd pryderon am effaith y ffôn talu

ar yr ardal oherwydd ei chyflwr gwael. Roedd CBSC wedi gofyn i BT ei symud am resymau esthetig, ond roedd BT wedi gwrthod y cais oherwydd gwrthwynebiad y Cyngor Tref.

Eglurodd nifer o'r Cynghorwyr yn y cyfarfod, y rheswm dros gadw'r ffôn talu (diogelwch y cyhoedd ar adeg o argyfwng). Fe nodwyd hefyd bod y nifer o alwadau wedi bod yn llawer is nag arfer am fod y ffôn talu wedi'i leoli tu ôl i ffens am gyfnod sylweddol o'r flwyddyn ddiwethaf tra bu'r gwaith o adeiladu'r pier newydd yn mynd ymlaen.

Er mwyn cyfaddawdu, gofynnodd y Cyngorydd Cossey a fyddai'r Cyngor Tref yn gallu helpu i ddarganfod / cael blwch ffôn coch hen ffasiwn a fyddai nid yn unig yn fwy addas i'r safle ond hefyd yn gallu bod yn lle i gadw diffibriliwr.

***Penderfynwyd ysgrifennu at BT (i/s Haf Jones, CBSC) i ddweud bod y Cyngor Tref yn barod i newid ei gwrthwynebiad i symud blwch ffôn talu presennol BT ar yr amod bod y ffôn talu yn aros a bod blwch ffôn coch hen ffasiwn yn cymryd lle'r blwch ffôn presennol.***

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyngorydd Cossey a Mr David Harding-Smith am fod yn bresennol yn y cyfarfod, ac yna gadawsant y cyfarfod.

**d) Pwll Ymdrochi:** Fe nodwyd gan yr Aelodau, yr ebost ynglŷn â chynnal a chadw pyllau ymdrochi'r ardal i fod yn barod pan ddaw'r gwaharddiadau coronavirus i ben.

#### **56/21 Llochesi Fysus / Gwrychoedd:**

Cyflwynodd y Clerc ebost gan breswilydd am lochesi fysus / gwrychoedd yn ardal Pen y Bryn o Fae Colwyn gan awgrymu dylai aelodau ystyried cysylltu â ChBS Conwy i ofyn a chafodd sistem sgorio ei sefydlu erioed i flaenoriaethu ceisiadau am lochesi newydd.

***Penderfynwyd bod y Clerc i gysylltu â ChBS Conwy i ofyn a gafodd sistem sgorio i sefydlu blaenoriaeth am lochesi newydd ei ddatblygu / mabwysiadu erioed ac i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn y man.***

#### **57/21 Gardd Gymunedol yn Ardal Bae Colwyn:**

Fe nodwyd bod yr eitem hon i gael ei gyfeirio at sylw Pwyllgor Colwyn yn ei Blodau.

#### **58/21 Cynllunio:**

**a)** Cyflwynodd y Clerc y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd oddi wrth GBS Conwy i gael eu hystyried.

***Penderfynwyd anfon sylwadau ar y ceisiadau hyn yn unol â'r hyn a welir yn Rhestr 'B' sydd gyda hwn.***

**b)** Cyflwynodd y Clerc y Penderfyniadau Cynllunio a wnaed gan GBS Conwy am y cyfnod o 19/4/2021 hyd at 16/5/2021 ac fe'u nodwyd gan yr Aelodau.

Fe nodwyd gan yr aelodau bod ceisiadau cynllunio O/48343 ac O/48345 ag O/48352 - Tir y Lleng Prydeinig - wedi cael eu gwrthod. Roedd adroddiad yr Archwilydd yn cynnwys y rhesymau dros wrthod ac yn cyd-fynd a'r mwyafrif o wrthwynebiadau'r Cyngor Tref.

**c) Rhybudd o Dynnu Cais Cynllunio yn ôl:**

Cyflwynodd y Clerc y Rhybudd o dynnu cais yn ôl parthed cais cynllunio O/48415 ac fe nodwyd hwn gan yr Aelodau.

**ch) Ymweld â Safle:**

Rhoddodd y Cyngorydd Matthews adroddiad am yr ymweliad safle parthed cais cynllunio O/48235 y bu ynddo'r wythnos cynt. Mynegwyd pryder am y gwaith a fwriadwyd ar gyfer y safle.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.25 pm

..... Cadeirydd

**CYNGOR TREF BAE COLWYN BAY TOWN COUNCIL**  
**CEISIADAU CYNLLUNIO/PLANNING APPLICATIONS**

**06/07/2021**

| Cyfeirnod/<br>Reference | LEFEL/<br>LEVEL | CAIS/APPLICATION   |
|-------------------------|-----------------|--|
| 0/48594                 | D               | <p>Tystysgrif Cyfreithlondeb ar gyfer estyniad arfaethedig i annedd<br/> <b>Safle:</b> 52, Kensington Avenue, Old Colwyn, LL29 9ST<br/> <b>Ymgeisydd:</b> Mr Mike Jones<br/> <b>Dim Gwrthwynebiad</b><br/> Certificate of lawfulness for proposed extension to dwelling<br/> <b>Location:</b> 52, Kensington Avenue, Old Colwyn, LL29 9ST<br/> <b>Applicant:</b> Mr Mike Jones<br/> <b>No objections</b></p>   |
| 0/48602                 | D               | <p>Codi garej ar safle'r hen garej<br/> <b>Safle:</b> Bryn Holcombe, 9, Grosvenor Road, Colwyn Bay, LL29 7YF<br/> <b>Ymgeisydd:</b> Mr Bernard Wellings<br/> <b>Dim Gwrthwynebiad</b><br/> Erection of garage on site of previous garage<br/> <b>Location:</b> Bryn Holcombe, 9, Grosvenor Road, Colwyn Bay, LL29 7YF<br/> <b>Applicant:</b> Mr Bernard Wellings<br/> <b>No objections</b></p>   |
| 0/48607                 | D               | <p>Gwaredu ty haf presennol. Gwaredu coeden Fechan, ail-lefelu a phalmantu'r tir er mwyn caniatáu ar gyfer ystafell ardd newydd<br/> <b>Safle:</b> 24, Rhodfa'r Grug, Upper Colwyn Bay, Colwyn Bay, LL29 6DG<br/> <b>Ymgeisydd:</b> Mr Stuart Evison</p> <p>Remove an existing summerhouse. Remove a small tree, re-level and pave the ground to allow a new garden room<br/> <b>Location:</b> 24, Rhodfa'r Grug. Upper Colwyn Bay, LL29 6DJ<br/> <b>Applicant:</b> Mr Stuart Evison<br/> <b>Object due to concerns re: tree removal, as understand covenants in place to protect trees on the estate</b></p>  |
| 0/48609                 | D               | <p>Tynnu Waliau partiwn modern a nenfydau grid is (Caniatad Adeilad Rhestredig)<br/> <b>Safle:</b> Walshaw House, 35, Oak Drive, Colwyn Bay, LL29 7YP<br/> <b>Ymgeisydd:</b> Mr &amp; Mrs Williams<br/> <b>Dim Gwrthwynebiad</b><br/> Removal of modern partitions and lowered grid ceilings (Listed Building Consent)<br/> <b>Location:</b> Walshaw House, 35, Oak Drive, Colwyn Bay, LL29 7YP<br/> <b>Applicant:</b> Mr &amp; Mrs Williams<br/> <b>No objections</b></p>   |
| 0/48621<br>&0/48622     | D               | <p>Addasiadau i'r adeilad rhestredig drwy osod 3 arwydd yn cynnwys llythrennau, plac gwybodaeth, tynnu ramp diangen ar gyfer defnyddwyr anabl a grisiau i'r cyn dil gwasanaeth a seff nos, codi polyn baner 6.0 metr o uchder ac 1 arwydd polyn 2.8 metr o uchder (Safleoedd gwahanol yn cael eu cynnig fel dewisiadau 'A' a 'B') a chodi strwythurau storio biniau a beiciau i'r gorllewin o'r adeilad (Cydsyniad Adeilad Rhestredig)<br/> <b>Safle:</b> 44, Conway Road, Colwyn Bay, LL29 7HT<br/> <b>Ymgeisydd:</b> Chris Spillane<br/> <b>Dim Gwrthwynebiad</b><br/> Alterations to the listed building by installing 3 number applied letter signs,</p> |

| Cyfeirnod/<br>Reference | LEFEL/<br>LEVEL | CAIS/APPLICATION   |
|-------------------------|-----------------|--|
|                         |                 | <p>an information plaque, removing a redundant disabled ramp and steps to the former service till and night safe respectively, erecting a 6.90 metre high flagpole and I number 2.8 metre pole signs, (Alternative positioning options 'A' and 'B' proposed) and the erection of bin and cycle store structures to the west of the building (Listed Building Consent)</p> <p><b>Location:</b> 44, Conway Road, Colwyn Bay, LL29 7HT</p> <p><b>Applicant:</b> Chris Spillane</p> <p><b>No objections</b></p>  |
| 0/48633                 | D               | <p>Amrywio amod rhif 1 (Cynlluniau a Gymeradwywyd) caniatad cynllunio 0/45161 (Cymeradwyo materion a gadwyd yn ol o ran caniatad cynllunio amlinellol 0/42351 (Datblygiad tir gyferbyn a Bryn Rhodyn, (Ffordd Dolwen) Hen Golwen ar gyfer tai preswyl (Caniatad Cynllunio Amlinellol)(Cam 1)</p> <p><b>Safle:</b> Land at Dolwen Road, Dolwen Road, Old Colwyn, Colwyn Bay, LL29 8UP</p> <p><b>Ymgeisydd:</b> Mr Phil Hargreaves</p> <p>Variation of condition no.1 (Approval Plans) of planning approval 0/45161 (Approval of matters reserved in respect of outline planning permission 0/42351 (Phase 1)</p> <p><b>Location:</b> Land at Dolwen Road, Dolwen Road, Old Colwyn, Colwyn Bay, LL29 8UP</p> <p><b>Applicant:</b> Mr Phil Hargreaves</p> <p><b>Observations /objections if any will submitted as soon as possible. Planning Explorer was not available on the night of the meeting so documents could not be viewed.</b></p> |